❖ Y Blwch

A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a welsant y mab bychan gyda
Mair ei fam; a hwy a syrthiasant i lawr, ac a'i haddolasant
ef: ac wedi agoryd eu trysorau, a offrymasant iddo
anrhegion; aur, a thus, a myrr.
(Mathew 2:11) (*BWM*)

Drannoeth yr ŵyl, byddid yn agor y Blwch (y *Christmas Box*) ac yn rhannu anrhegion i dlodion yr ardal. Yn rhaglenni radio Nadolig pedwardegau'r ganrif a basiodd, roedd 'Carol y Blwch' yn ffefryn mawr gan Driawd y Coleg, ac o'i chanu'n ddigyfeiliant, teimlem fod iddi awyrgylch dra hynod.

Gwrandawed pob enaid ar gennad o'r llys
A ddaeth o Gaersalem i Fethlem ar frys;
Pob organ mewn cywair, pob telyn mewn hwyl,
A myrdd o angylion yn cadw dydd gŵyl.

Arweiniwyd rhyw seren uwch Bethlem a'i phyrth,
I ddangos i'r doethion arwyddion o wyrth;
O! Gabriel, O! Gabriel, rhaid dangos y tlws,
O! dos â'r bugeiliaid i ymyl y drws.

Rho gân i'r cantorion, a chana dy hun,
Gogoniant i'r nefoedd, tangnefedd i ddyn;
Caed prifnod y nefoedd, Duw diddig, Duw da,
Rho Flwch aur y Dolig yn glennig i gla'.

Robin Williams